Patrwm cyflwyno: O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r cwrs 60 credyd hwn yn fodiwl lefel 2 sy'n cyfrif tuag at Radd Sylfaen mewn Chwaraeon a Ffitrwydd a Diploma Addysg Uwch mewn Chwaraeon a Ffitrwydd, yn ogystal â gradd BSc mewn Chwaraeon, Ffitrwydd a Hyfforddi. Mae wedi'i anelu at hyfforddwyr chwaraeon, gweithwyr proffesiynol ym maes ymarfer corff a phobl sydd â diddordeb mewn chwaraeon sydd am ddatblygu eu gwybodaeth wyddonol, sgiliau dadansoddi, perthynas rhwng hyfforddwr ac athletwr ac ymarfer myfyriol mewn lleoliadau chwaraeon ac ymarfer corff. Drwy ymchwilio i agweddau ar wyddor chwaraeon a'u rhoi ar waith, gan gynnwys ffisioleg, monitro athletwyr, dadansoddi symudiadau a dulliau hyfforddi ar gyfer cryfder a chyflyru, bydd y myfyrwyr yn gwella eu dealltwriaeth o symudiad a pherfformiad dynol. Drwy roi egwyddorion gwyddor chwaraeon ac ymarfer corff ar waith mewn astudiaethau achos, caiff myfyrwyr gyfle i ddatblygu eu hymarfer myfyriol a bod yn hyfforddwyr mwy effeithiol, er mwyn diwallu anghenion cleientiaid/athletwyr/cyfranogwyr yn y dyfodol yn eu camp ac amgylchedd ffitrwydd dewisol. Bydd rhai opsiynau dewisol yn galluogi'r myfyrwyr i ystyried meysydd o ddiddordeb yn fanylach.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â manyleb gyffredinol y person ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- Gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn chwaraeon, ffitrwydd, ymarfer corff neu hyfforddi, sydd ag elfen gwyddor chwaraeon ac ymarfer corff sylweddol
- Profiad o weithio mewn rôl hyfforddi yn y sector chwaraeon/ffitrwydd
- Cefndir cryf mewn o leiaf ddau o'r canlynol:
    - Anatomi a ffisioleg
    - Monitro a dadansoddi athletwyr (biomecaneg)
    - Cryfder a chyflyru
- Cefndir cryf mewn egwyddorion damcaniaethol sy'n sail i hyfforddi chwaraeon ac ymarfer corff
- Profiad o helpu eraill i ddysgu, e.e. drwy addysgu, hyfforddi neu arfarnu
- Ymrwymiad i gymryd rhan mewn fforymau ar-lein, gwe-diwtorialau sain a thechnolegau ar-lein eraill.

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- Cymhwyster cryfder a chyflyru a/neu brofiad o'u haddysgu mewn sefydliad addysg uwch.
- Profiad o roi gwyddor chwaraeon ac ymarfer corff ar waith ym maes hyfforddi mewn lleoliadau y tu hwnt i addysg uwch/bellach.
- Dwy flynedd o brofiad o addysgu ac asesu gan ddefnyddio dulliau e-ddysgu neu addysgu o bell.
- Gradd uwch a/neu ddoethuriaeth sy'n canolbwyntio ar wyddor chwaraeon ac ymarfer corff neu hyfforddi chwaraeon neu addysgu a dysgu yn yr un maes.
- Dylai ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o addysgu ac asesu e-Ddysgu

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynwyd gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	7
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	7